



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Y Gromlech  
Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy  
Dyffryn Ardudwy  
LL44 2EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Gromlech. Mae'n cwrdd yn adeilad Ysgol Feithrin Dyffryn Ardudwy a Thalybont, sydd ar safle Ysgol Dyffryn Ardudwy, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos rhwng 8.50 y bore a 12.50 y prynhawn, ac yn darparu addysg a gofal yn ystod yr oriau hyn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae pob plentyn, sy'n ddilys, yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae tua hanner ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015 a gan Estyn ym mis Mawrth 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn
- rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol, sy'n cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus
- disgwyliaidau uchel gan ymarferwyr sy'n herio'r plant yn gyson yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd
- asesu cywir yn arwain at ddatblygu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn fwriadus
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- defnydd effeithiol o'r ardal fewnol i ysgogi'r plant i wella'u medrau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl waith y lleoliad ac mae ganddi ddisgwyliaidau uchel o'r ymarferwyr a'r plant
- y pwyllgor rheoli ymroddgar sy'n gefnogol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn ddeallus
- diwylliant cadarn o hunanarfarnu sy'n sicrhau gwelliannau cyson
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- partneriaethau llwyddiannus gyda rhieni ac asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth a dysgu'r plant yn bwrpasol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol i wella'r ddarpariaeth

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod yr holl blant sy'n deall yr iaith yn ymateb yn rheolaidd yn y Gymraeg
- A2 Gwella'r defnydd o'r ardal allanol i sicrhau bod plant yn gallu symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol
- A3 Amseru'r sesiynau torfol yn well i gynnal diddordeb pob un plentyn

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn. Maent yn dysgu'n llwyddiannus ynglŷn â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh effeithiol.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwranddo'n astud ac yn ymateb yn ddeallus i holi gan yr ymarferwyr yn ystod amseroedd torfol. Mae llawer yn defnyddio patrymau iaith cywir ac ymadroddion diddorol yn gwbl annibynnol yn y Gymraeg, mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws. Er enghraifft, mae llawer yn trafod cymeriadau a digwyddiadau storïau fel unigolion ac mewn grwpiau yn hyderus. Mae llawer o'r plant yn ynganu'n glir ac yn defnyddio'r iaith yn bwrpasol i fynegi barn a'u hoffterau personol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon ac yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig. O ganlyniad, mae llawer yn siaradwyr naturiol a deallus. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o blant yn ymateb yn y Gymraeg, er eu bod yn deall a gweithredu ar esboniadau a cheisiadau'r ymarferwyr.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn ystyried diben y stori a'r lluniau yn ddeallus. Maent yn deall pwrpas yr ysgrifennu ac yn ailadrodd trefn storïau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel anifeiliaid sy'n gysylltiedig â'r Pasg yn synhwyrol. Mae mwyafrif y plant yn cysylltu gweithredoedd ag emosiynau yn fedrus, fel adnabod mai'r blaidd â'r dannedd mawr a miniog yw'r dihiryn yn stori'r tri mochyn bach. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn defnyddio lliwiau pastel yn greadigol wrth beintio i greu darlun o'r gwanwyn a dilyn taith dyfais electronig ag ysgrifbinnau lliw i greu patrwm ar bapur hir. Mae llawer ohonynt yn esbonio pwrpas ysgrifennu wrth greu cyfarchion i'w teulu ar gerdyn Pasg. Mae lleiafrif o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn rheolaidd ac maent yn llwyddo i ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau adnabyddus.

Mae rhan fwyaf y plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump heb gymorth oedolyn yn ddeallus. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt drafod siapiau a'u cymharu, a rhifo cywion i mewn i wyau â rhifau arnynt yn gywir. Mae ychydig ohonynt yn cyfrif â chywirdeb i ddeg a thu hwnt heb anogaeth. Mae llawer o'r plant yn didoli gwrthrychau gwahanol yn ôl lliw a siâp yn llwyddiannus ac yn rhifo sawl gwrthrych o bob math sydd ganddynt yn gywir. Mae ychydig o'r plant yn deall sut i ddechrau bondio rhifau at bump yn effeithiol, gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio rhifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft wrth gymharu nifer y siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn a ddefnyddir wrth adeiladu tai'r tri mochyn bach. Mae rhan fwyaf y plant yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth gymharu gwrthrychau â'i gilydd ac os ydynt yn 'fach', yn 'fawr', yn 'llai' neu'n 'fwy'.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio technoleg yn fentrus. Maent yn gwneud hyn trwy ddefnyddio gliniadur, llechi, teganau a dyfeisiau electronig mewn gweithgareddau ffocws a pharhaus yn hyderus. O ganlyniad, mae eu defnydd o raglenni addysgol, apiau a chaledwedd yn datblygu eu medrau meddwl a chyfleoedd i ddatrys problemau yn fwriadus.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwranddo ar gerddoriaeth yn astud ac maent yn perfformio'n frwdfrydig wrth ganu a gwneud ystumiau i gyfatebu â'r geiriau. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gyrru beiciau a cherbydau'n fywiog ar fuarth yr ysgol, dringo'n frwdfrydig ar gyfarpar anturus yr ysgol a neidio o un boncyff i'r llall yn yr ardal allanol.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ymestyn eu creadigrwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio toes, gliter, llygaid, pigau a brwyn lliwgar i greu cywion, ac yn eu gosod mewn nythod a grëwyd ganddynt o ddeunyddiau naturiol.

### **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae llawer yn dangos cymhelliant a gwydnwch wrth ymateb i weithgareddau heriol. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y plant yn mwynhau'r tasgau ym mhob maes dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda'i gilydd. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â thywod, trwy lenwi colandr ac yna rhidyllu'r tywod yn ôl i'r twb, a phlannu blodau mewn potiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi barn a'u hoffterau personol yn ddeallus. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt benderfynu parhau â thasgau penodol neu ddechrau gweithgareddau newydd o'u dewis eu hunain. Mae llawer yn esbonio pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau yn feddylgar. Maent yn gwbl hyderus a chadarn wrth nodi pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt. Gwelir hyn wrth iddynt ddewis i gydbwyso ar drawst ac ar un goes neu wrth iddynt ganu rhigymau fel unawdydd yn ddigyfeiliant. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus sy'n gweithio'n annibynnol ac yn fwriadus yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un yn gwranddo'n astud a gofalus ar oedolion, er enghraifft wrth weini diod a gwisgo'u cotiau i chwarae yn yr awyr agored. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae bawlyd ac anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr. Maent yn deall yn gadarn fod glendid yn gefn i osgoi heintiau drwg ac yn bwysig i gynnal bywydau iachus.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd synhwyrol i blant gyfrannu eu syniadau at y cynllunio yn ystod amseroedd cylch a thrafodaethau cyson wrth gyflawni tasgau. O ganlyniad, mae'r holl brofiadau dysgu yn diwallu diddordebau ac anghenion y plant yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu'n gynhyrchiol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyfle i blant ysgrifennu negeseuon i'w hanwyliaid ar gardiau Pasg.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn bwrpasol. Maent yn galluogi plant i ddewis offer addas i ddatrys problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r thema gyfredol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'r plant i greu tai i'r tri mochyn bach allan o flychau cardfwrdd, gwellt a phren.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i blant fynegi eu barnau eu hunain ac i ddatblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i chwarae rôl yn y gegin a'r ardal gwisgo'i fyny yn fwriadus. Maent yn canolbwyntio ar fedrau ymchwiliol yn effeithiol yn yr ardaloedd darganfod, fel darparu cyfleoedd i ddefnyddio chwyddwydrau a thynnu lluniau â chamêrâu. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n systematig ar ddealltwriaeth a medrau presennol y plant yn effeithiol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn fodolau da o'r iaith i'r plant. Maent yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau difyr. Ar y cyfan, mae'r holl ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant sy'n dysgu'r iaith yn effeithlon ac yn herio'r siaradwyr hyderus i wella safon eu hiaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r Gymraeg yn datblygu'n gynyddol, a'u defnydd o'r iaith yn gwella'n gyson.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen ac olrhain hanes y pentref fel astudio'r siambr gladdu neolithig gyfagos.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarn i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel gliniadur a llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio'r plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio meddalwedd ac apiau pwrpasol yn y Gymraeg a chaledwedd addysgol i ddatblygu medrau TGCh cynnar a rheolaeth y plant o gyfarpar technolegol yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn synhwyrol, er enghraifft drwy adael iddynt ddringo ar gyfarpar anturus yr ysgol a chwarae yn yr ardd a'r gromen helyg. Yn ogystal, mae pwyslais effeithiol ar ddatblygu creadigrwydd y plant trwy arbrofi â phaent, a chwarae rôl wrth y gegin fwd a mainc yr adeiladwr.



Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i'r swyddfa bost i bostio llythyron, y cromlechi cyfagos a'r orsaf dân. Mae nifer o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad fel swyddogion y gwasanaethau brys, bydwaig a'r ambiwlans awyr, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o athroniaeth y cyfnod sylfaen ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, yn enwedig dan do. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant.

Mae disgwyliaid uchel gan ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn ôl yr angen yn ddoeth, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y dasg. Mae hyn yn cymhell y plant i berfformio ar eu gorau'n gyson yn ystod tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn fedrus er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhif a TGCh. Fodd bynnag, ar adegau, nid ydynt yn amseru sesiynau torfol yn ddigon da i gynnal diddordeb pob un plentyn yn gwbl effeithiol. O ganlyniad, mae ychydig iawn o blant yn aflonydd yn ystod amser cylch ac wrth iddynt ymateb i ambell her.

Mae'r ymarferwyr yn cyfarch plant yn gynnes ac yn fywiog wrth iddynt gyrraedd, ac mae'r bywiogrwydd hyn yn parhau trwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus. Mae'r system o rannu cyfrifoldebau yn sicrhau bod her gyson i wahanol blant, ac mae hyn yn targedu datblygiad llythrennedd a rhifedd y plant hyn yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn dosrannu eu cyfrifoldebau rhwng tu mewn i'r adeilad a'r ardal allanol yn gwbl effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael cyfle i symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod tasgau ffocws yn synhwyrol. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol yn effeithiol yn llyfrynnau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cysylltu'r dystiolaeth yn gydwybodol â deilliannau plant unigol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau, sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau ac adroddiadau defnyddiol i rieni pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau

grŵp yn synhwyrol i annog y plant i ystyried teimladau ei gilydd ac os ydynt yn hapus neu'n drist. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn creu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant eistedd yn dawel ac i drafod a gwrando ar oedolion a phlant eraill yn feddylgar. Er enghraifft, mae plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt fwyta eu byrbrydau mewn grwpiau bach. Yn ystod y sesiynau hyn, mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i'r plant fynegi'r rhesymau dros eu dewisiadau, wrth iddynt drafod eu byrbrydau a'u diod. Mae trefniadau effeithlon i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn dda i'w cyrff a'u hiechyd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd. Yn ogystal, maent yn compostio yn yr ardal allanol a defnyddio rap gan gymeriad ar raglen TGCh i ddeall pwrpas gwaith y casglwyr sbwriel yn ein cymunedau. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw fath o ymddygiad annerbyniol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae ymarferwyr yn gofalu'n ddiwyd am y plant pan fyddant yn cyrraedd, yn ystod y sesiwn, a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn arsylwi plant yn ofalus wrth nodi unrhyw bryderon. Maent yn gweithredu ar y rhain trwy gyfathrebu â rhieni a derbyn cyngor gan asiantaethau arbenigol, fel y lleferydd iaith i helpu symud ymlaen ag ymyrraeth benodol. Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion ffurfiol o sylwadau ychwanegol i'w helpu i olrhain cynnydd y plant hyn yn drylwyr.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo ethos gofalgwr trwy'r holl weithgareddau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwyliau o bob cwr o'r byd. Mae hyn yn cynnwys addurno dwylo'r plant â phatrymau henna ar gyfer Diwali a gorymdeithio â'r ddraig i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod pob un plentyn yn cael yr un cyfle i elwa o weithgareddau diddorol yn yr ardaloedd dysgu tu mewn a chael defnydd cyfartal o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob un o'r plant yn dda ac yn deall ac yn ymateb i'w hanghenion unigol yn gydwybodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau tu mewn i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ystod eang o adnoddau diddorol dan do yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau â ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Maent yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r adnoddau'n annibynnol, ac mae hyn yn datblygu eu synnwyr o gyfrifoldeb yn ddeallus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn lân ac yn cael ei gynnal yn effeithiol. Mae'r ardal awyr agored yn addas yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu ac offer anturus ar dir yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer defnyddio'r ardal yn effeithiol. O ganlyniad, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y defnydd o'r amgylcheddau dysgu dan do a'r awyr agored. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal leol a'r pentref yn llwyddiannus i ychwanegu at brofiadau dysgu plant, fel ymweliadau â siop y pentref a chanolfan yr henoed.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar fodloni anghenion plant a sicrhau gwelliannau yn eu safonau a'u lles.

Mae'r arweinydd yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddgar yn gydwybodol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr a'r plant. Mae hi'n llwyddo i'w hannog i wella mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol. Mae'r arferion cadarnhaol hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn llwyddo i wella deilliannau'r plant.

Mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn effeithlon gyda phob un o'r ymarferwyr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod pob un ymarferwr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio gyda'i gilydd yn ddyddiol fel tîm effeithiol. Yn ogystal, maent yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn ddiwyd, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh a chanolbwyntio ar wella safonau'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae'r arferion goruchwyllo a gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod yr arweinydd yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae hyn yn hynod amlwg mewn tasgau llythrennedd, rhifedd, TGCh a phrofiadau ymchwiliol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth gadarn am arferion y lleoliad gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i fonitro arferion y lleoliad ac i geisio ei gefnogi'n ariannol. Maent yn herio'r lleoliad yn gyson fel ffrind beirniadol i wella'r ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw gwella'r ardal fewnol a chyllido cyfarpar newydd fel gliniadur a llechi electronig.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau i hunanarfarnu arferion a gweithredoedd y lleoliad yn drwyadl. Mae'r arweinwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ac yn finiog, trwy weithdrefnau meintioliol yr awdurdod lleol. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd synhwyrol o'r gweithdrefnau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer y lleoliad. Mae barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cael eu hystyried yn bwrpasol trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n gweithredu'n fuddiol ar eu cyngor er lles y plant.

O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwobodol i sicrhau bod y lleoliad yn hunanwella'n effeithiol.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac yn cyfateb yn gywir i'r meysydd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys camau ac amserlenni buddiol ar gyfer cyflawni'r targedau defnyddiol. Mae monitro'r gwelliannau yn gyson yn erbyn y targedau penodol yn gwerthuso'r effaith ar ddysgu'r plant yn bwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r lleoliad yn gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn llwyddiannus, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae hyn yn arwain at welliannau defnyddiol, fel gweithredu proffil y cyfnod sylfaen, gwella'r arferion asesu i gyfateb i'r cynllunio a'r defnydd o gyfarpar TGCh ar lawr y lleoliad yn ddyddiol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae cysylltiadau'r lleoliad â'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant yn bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau codi arian llwyddiannus, cynigion am gyllid grant a'r gefnogaeth i adeiladu ac atgyweirio cyfarpar tu mewn a thu allan i'r lleoliad gan rieni.

Mae'r partneriaethau â'r ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin wedi eu sefydlu'n dda. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi'r lleoliad i ddatblygu a gwella'i arferion. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i dargedu anghenion y plant yn gynnar, a defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant. Yn ogystal, mae'r asiantaethau yn darparu cymorth gweinyddol a hyfforddiant cyfredol. O ganlyniad, maent yn cefnogi a herio'r lleoliad yn effeithiol, yn enwedig ar wella'r asesu, y cynllunio a gofynion y cyfnod sylfaen.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli â'r ysgol leol. Mae hyn yn cefnogi'r trefniadau pontio'n dda. Defnyddir systemau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant o un sefydliad i'r llall. O ganlyniad, mae'r trefniadau o fudd i'r plant wrth iddynt ymgynefino ag addysg gynradd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae ymarferwyr yn cysylltu a gweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sy'n gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad â hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant ynglŷn ag amddiffyn plant.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n ddoeth. Mae

hi, gyda chefnogaeth y pwyllgor rheoli ymroddgar, yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, gyda hyfforddiant gwerthfawr, i fodloni anghenion plant yn llwyddiannus.

Mae arferion arwain yr arweinydd a chefnogaeth ddeallus y pwyllgor rheoli yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gallu defnyddio adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu yn effeithiol, fel caledwedd a meddalwedd TGCh. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gydwybodol, lle mae cydweithrediad cadarn rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi holl waith y lleoliad.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn. Maent yn sicrhau bod effaith yr arferion dyddiol bwriadus yn creu profiadau dysgu diddorol ac addysgu cadarnhaol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fedrus i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wna plant o'u manau cychwyn, y ddarpariaeth bwrpasol a'r arweinyddiaeth effeithiol.

## Rhestr termau

<b>AGC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg